Sinfonia Cymru
sinfonia.cymru
@sinfoniacymru

# Music for Piano and Wind Instruments

## Rhaglen

| | |
|---|---|
| **Ludwig Thuille** | *Sextet for Piano and Woodwind Quintet: III* |
| **Samuel Barber** | *Summer Music* |
| **Wolfgang Amadeus Mozart** | *Quintet for Piano and Winds: I* |
| **Mel Bonis** | *Meditation Op.33 No.1* |
| | *Scherzo for Flute and Piano Op Posth. 187: Final* |
| **Louise Farrenc** | *Sextet in C minor: I* |
| **Malcolm Arnold** | *Three Sea Shanties for Wind Quintet* |

**Sinfonia Cymru: Dewr, disglair a ledled Cymru**

Ni yw cerddorfa talent ifanc Cymru, cartref i gerddorion proffesiynol a deinamig o Gymru a'r byd, pob un dan 30 oed. O berfformio cerddoriaeth glasurol i gyfansoddiadau newydd a chydweithio gyda cherddorion enwog a chyffrous, beth bynnag ry'n ni'n ei wneud, byddwn ni'n chwarae gydag angerdd, cywirdeb ac ysbryd anturus. Byddwn ni'n perfformio lle mae cerddoriaeth o bwys: yng nghanol cymunedau Cymru. Byddwn ni yn y mannau ble mae'r gynulleidfa'n teimlo'n gartrefol; canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd, tafarndai, neuaddau pentref, cartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt. Ry'n ni'n cefnogi ein cerddorion ar ddechrau eu gyrfaoedd proffesiynol. Pan mae nhw'n ymuno, ry'n ni'n eu helpu i dyfu a chymryd yr awenau. Y canlyniad? Perfformiadau o ansawdd eithriadol, lle bynnag ry'n ni'n chwarae. Bob blwyddyn rydym yn cydweithio gyda artistiaid ysbrydoledig fel Catrin Finch, Jess Gillam ac Abel Selaocoe, gan gyfuno cerddoriaeth glasurol â chymysgedd cyfoethog o arddulliau. Ry'n ni hefyd yn cynnal gweithdai am ddim mewn ysgolion a cholegau, gan feithrin y genhedlaeth nesaf o dalent cerddorol yng Nghymru. O Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth i Theatr Clwyd, a'n taith Cymuned flynyddol, ry'n ni'n dod â cherddoriaeth i bob cwr o Gymru. Os ydych chi'n byw yma, mae'n siŵr ein bod ni'n perfformio yn rhywle lleol yn fuan.

Registered charity: 1058196

## Cwrdd â'r Offerynwyr

### Rebecca Rouch (Ffliwt)

Mae'r ffliwtydd Rebecca Rouch yn perfformio ledled y DU fel unawdydd, cerddor siambr, ac fel aelod o gerddorfeydd. Astudiodd yn y Guildhall School of Music and Drama, gan raddio gyda BMus Dosbarth Cyntaf, a Concert Recital Diploma; yn ogystal enillodd radd Meistr gyda Rhagoriaeth, ac yn y cyfnod hwnnw roedd ganddi ysgoloriaeth gyda'r London Symphony Orchestra Orchestral Artistry Programme. Fel cerddor siambr, mae Rebecca wedi perfformio fel rhan o'r Leeds International Concert Season, yng Ngŵyl Jopes Mill, a recordiodd y bale Peter Pan ar gyfer Studio Bontemps. Mae hi wedi perfformio gyda Sinfonia Cymru a'r Orpheus Sinfonia, yn dilyn treuiio blwyddyn fel Ffliwtydd Rhaglen yr Orpheus Foundation yn 2024/25. A hithau'n addysgwr cerdd ymroddedig, mae'n gweithio gyda gwahanol sefydliadau i addysgu, ac i arwain gweithdai a chyngherddau mewn ysgolion ar draws Leeds, Llundain, Taunton a Chernyw.

### Polly Bartlett (Obo)

Graddiodd Polly Bartlett o'r Coleg Cerdd Brenhinol ym mis Gorffennaf 2022 lle'r enillodd radd Meistr mewn Perfformio gyda Chlod Uchel, gan astudio dan Olivier Stankiewicz, Juliana Koch a Christine Pendrill. Mae'n perfformio'n rheolaidd gyda nifer o'r prif gerddorfeydd proffesiynol yn y DU ac Ewrop, megis y London Symphony Orchestra, Royal Philharmonic Orchestra, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Royal Ballet Sinfonia a Cherddorfa'r Byd dros Heddwch. Rhoddodd yr ymddangosiadau hyn gyfle iddi berfformio dan faton arweinyddion byd-enwog megis Barbara Hannigan, François-Xavier Roth a Jaume Santonja. Mae hi hefyd yn flaenwr adran yr obo gyda Cherddorfa Chromatica, ac ar hyn o bryd mae'n treialu ar gyfer yr un safle gyda Cherddorfa Ulster.

### George Blakesley (Clarinét)

Clarinetydd ac addysgwr yw George Blakesley, sy'n byw yn Llundain. Graddiodd gyda Chlod Uchel o'r Royal Northern College of Music, a bu'n Gydymaith gyda Sinfonia Smith Square o 2024–25. Mae George yn gweithio'n llawrydd yn rheolaidd gyda cherddorfeydd yng ngogledd Lloegr, yn cynnwys Opera North a Cherddorfa Symffoni Dinas Stoke-on-Trent. Mae'n arbennig o hoff o gerddoriaeth siambr, a thros yr ychydig fisoedd diwethaf bu wrth ei fodd yn perfformio gyda Sinfonia Cymru. Yn ddiweddar, dychwelodd o fordaith gyda chwmni Fred. Olsen i Norwy, ac ar ddiwedd y flwyddyn bydd yn perfformio datganiadau pellach ar fordaith o amgylch yr Ynysoedd Dedwydd. Mae e hefyd yn edrych ymlaen at berfformio yng nghynhyrchiad Hampstead Garden Opera o La Sonnambula gan Bellini ym mis Tachwedd.

### Emily Ambrose (Baswn)

Graddiodd Emily'n ddiweddar o'r Coleg Cerdd Brenhinol ac, o fis Hydref, bydd yn cyfuno astudiaethau pellach yn y Robert Schumann Hochschule Düsseldorf gyda gyrfa lawrydd yn perfformio a dysgu yn y DU. Fel perfformiwr rheolaidd yn Llundain a thu hwnt, mae Emily wedi gweithio gyda gwahanol gerddorfeydd, yn cynnwys Cerddorfa'r Royal Opera House, Royal Northern Sinfonia, Ulster Orchestra a'r Royal Liverpool Philharmonic Orchestra. Cymerodd ran mewn cyrsiau haf yn cynnwys yr Encuentro de Música y Academia de Santander, European Masterclasses and Orchestra, a Hellensmusic. Mae hefyd yn aelod o'r Colares Ensemble, a gyrhaeddodd rownd gyn-derfynol y 2026 Concours International de Musique de Chambre de Lyon. Mae ei pherfformiadau concerto'n cynnwys gweithiau gan Hummel a Rossini, ac mae wrth ei bodd yn perfformio gweithiau newydd ar gyfer y baswn.

### Hannah Williams (Corn Ffrengig)

Magwyd Hannah Williams yn Dartmoor, Dyfnaint, lle câi ei hamgylchynu gan gerddoriaeth o ddyddiau plentyndod. Yn 14 oed mynychodd Ysgol Cadeirlan Wells cyn mynd i astudio am radd yn yr Academi Gerdd Frenhinol, lle'r enillodd Wobr John Solomon i offerynnau pres yn ei hail flwyddyn. Ar ôl graddio bu Hannah yn aelod o'r Sinfonia Smith Square yn eu tymor 2024/25, a bellach mae'n mwynhau gyrfa lawrydd amrywiol yn Llundain a'r DU. Mae'n chwarae gyda cherddorfeydd megis y BBC Symphony Orchestra, y London Philharmonic Orchestra a'r Bournemouth Symphony Orchestra ac yn chwarae'n rheolaidd mewn sioeau yn y West End megis The Lion King, yn ogystal â bod ar PlayStation: The Concert world tour.

### Leyla Cemiloglu (Phiano)

Pianydd sy'n byw yn Llundain yw Leyla Cemiloglu. Ar ôl cwblhau ei hastudiaethau yn Ysgol Yehudi Menuhin a'r Guildhall School of Music and Drama, mae hi bellach yn mwynhau gyrfa amrywiol yn perfformio ledled y DU ac yn rhyngwladol, fel unawdydd a cherddor siambr, wedi iddi ymuno â Sinfonia Cymru yn 2025 ac â Piano Circus, yr ensemble cyfoes gwreiddiol i chwe phiano, yn 2023. Mae gan Leyla ddiddordeb arbennig yn y rhyngweithiad a'r croestoriadedd rhwng cerddoriaeth a ffurfiau eraill ar gelfyddyd.